

SL(6)363 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar gynhyrchwyr sydd wedi ymsefydlu yng Nghymru i gasglu data am y pecynwaith y maent yn ei gyflenwi i eraill. Mewn rhai achosion bydd angen iddynt hefyd adrodd am wybodaeth i Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC").

Mae Rhan 1 yn cynnwys y darpariaethau dehongli a'r darpariaethau cyffredinol.

Mae Rhan 2 yn nodi'r rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr. Mae Atodlen 1 yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol i gynhyrchwyr ei chasglu ac adrodd amdani.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau cofrestredig ac yn esemptio cynhyrchwyr sy'n aelodau o gynllun cofrestredig rhag eu rhwymedigaethau o ran adrodd am ddata o dan y Rheoliadau hyn, a bwrw eu bod yn bodloni gofynion penodol. Mae'n ofynnol i gynlluniau cofrestredig lunio adroddiadau ar ran pob un o'u haelodau sy'n bodloni'r gofynion hyn. Mae Rhan 3 hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â newidiadau i aelodaeth cynllun yng nghanol blwyddyn berthnasol.

Mae Rhan 4 yn nodi pwerau a dyletswyddau CNC o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer nifer o droseddau a chosbau am dorri'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn. Caiff y Rheoliadau hyn eu gorfodi gan CNC.

Dyma'r drydedd fersiwn o'r Rheoliadau hyn i'w gosod gerbron y Senedd. Mae dwy fersiwn flaenorol o'r Rheoliadau wedi'u tynnu'n ôl o'r blaen. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Newid Hinsawdd (y "Gweinidog") mewn [llythyr ar 14 Mawrth 2023](#), yn gofyn am ymatebion i faterion a godwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor. [Cafwyd ymateb gan y Gweinidog ar 23 Mawrth 2023](#), a oedd yn cynnwys ymatebion i'r materion a godwyd yn yr adroddiad drafft. Mae'r ymatebion hyn wedi'u cynnwys yn y sylwadau i'r pwyntiau adrodd y maent yn berthnasol iddynt, isod.

Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn
cysylltiad â'r



offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn rheoliad 2(1), yn y testun Saesneg, nid yw'r termau Cymraeg cyfatebol wedi'u cynnwys mewn llythrennau italig a chromfachau ar ôl y diffiniadau o Ddeddf 2003 a phe cynwaith brand.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 7(1) yn darparu ystyr "pecynwaith cartref". Nid ydym yn ystyried bod y gwaith drafftio yn darparu diffiniad clir o'r hyn y mae pecynwaith cartref yn ei olygu yn y cyd-destun hwn.

Datganodd y Gweinidog y canlynol, ar 23 Mawrth, mewn perthynas â'r pwynt hwn:

"Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y diffiniad o "pecynwaith cartref" yn rheoliad 7(1) yn ddigon clir ar y pwynt mai "pecynwaith cartref" yw unrhyw becynwaith cynradd neu becynwaith cludo nad yw'n cael ei gyflenwi i fusnes sy'n ddefnyddiwr terfynol y pecynwaith hwnnw. Eglurir hyn ymhellach gan reoliad 7(2). Mae'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ("EPR") cyffredinol ar gyfer pecynwaith yn cael ei gyflwyno ledled pedair gwlad y DU gyda rheoliadau cyfatebol adrodd am ddata yn cael eu gosod ym mhob un o'r deddfwrfeydd. Mae'r diffiniad a ddefnyddir yn gyson â'r hyn a ddefnyddir yn y rheoliadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan fod diffiniad cyffredin yn hanfodol er mwyn helpu busnesau i gydymffurfio a sicrhau cysondeb wrth gasglu ac adrodd am ddata ledled y DU. Nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu technegol hwn."

3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae'r term "brand" wedi'i ddiffinio yn rheoliad 8(13) fel term sy'n dwyn ystyr **yn y Rheoliadau hyn** ond ni chyfeiriwyd ato yn y rhestr o ddiffiniadau a geir yn rheoliad 2(1). Cyfeiriwyd at y ddau ddiffiniad arall a geir yn rheoliad 8(13), sef "perchennog brand" a "pecynwaith brand" yn rheoliad 2(1) fel bod y darllenwyr yn ymwybodol bod gan y termau hynny yr un ystyr drwy gydol y Rheoliadau. O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd y darllenwyr yn ymwybodol bod "brand" wedi'i ddiffinio fel term yn y Rheoliadau hyn hefyd, ac ymddengys ei fod yn ddull anghyson o'i gymharu â'r hyn a fabwysiedir i'r termau diffiniedig eraill a geir yn rheoliad 8(13).



4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft

Yn rheoliad 16(6), yn y testun Cymraeg, ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg gan fod y gair "data" ar goll o'r cyfieithiad o'r ymadrodd "cyfnod casglu data", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd yn y drydedd linell o baragraff (6). Mae'n derm diffiniedig yn rheoliad 2(1) ac felly rhoddwyd ystyr penodol iddo yn y Rheoliadau hyn.

5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 15(1)(b), disgrifir y cyfeiriad yn anghywir fel "**Is**-baragraff (a)" ond dylid cyfeirio ato fel "**paragraff** (a)" (paragraff 15/is-baragraff (1)/paragraff (a)).

Rhinweddau: craffu

Nodwyd yr 8 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn

6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 4 yn addasu'r Gyfarwyddeb Wastraff¹, ac yn benodol mae'r addasiad yn ymwneud â diffiniad "gwastraff" y Gyfarwyddeb Wastraff, sy'n allweddol i ddeall y Rheoliadau hyn. Rydym yn nodi bod y Gyfarwyddeb Wastraff ar gael i'r cyhoedd ar legislation.gov.uk.

Gwnaethom holi o'r blaen a oes ffordd fwy hygyrch o ddeddfu yn hyn o beth er mwyn galluogi darllynydd i weld y darpariaethau ar wyneb y Rheoliadau hyn.

Cawsom ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 23 Mawrth ar y pwynt hwn a ddatganodd fod: "*Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddeddfwriaeth yn hygyrch oherwydd bydd y cyhoedd yn gallu cael gafael ar y Gyfarwyddeb Gwastraff ar legislation.gov.uk. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn.*"

7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 6(3) yn darparu bod Atodlen 5 i Reoliadau Deunydd Pacio (Gofynion Hanfodol) 2015 yn cynnwys enghreifftiau eglurhaol o ddeunydd pacio.

¹ Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (UE) 2018/851



Byddai cynnwys yr enghreifftiau hyn mewn atodlen i'r Rheoliadau wedi gwella hygyrchedd, ar gyfer yr hyn sydd eisoes yn rheoliadau cymhleth.

Mewn perthynas â drafft blaenorol o'r Rheoliadau, datganodd y Gweinidog (ar 23 Mawrth) fod:

"y ddeddfwriaeth yn hygyrch oherwydd bydd y cyhoedd yn gallu cael gafael ar Reoliadau Pecynwaith (Gofynion Hanfodol) 2015 ar legislation.gov.uk. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn."

8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 14 yn darparu ar gyfer sefyllfaoedd pan fo cynhyrhydd yn marw, yn mynd yn fethdalwr neu'n dod yn analluog (y "cynhyrhydd cyntaf"). Mae angen i berson sy'n parhau â gweithgareddau'r cynhyrhydd cyntaf drwy reoliad 14(3) hysbysu CNC o fewn 28 o ddiwrnodau i ddechrau'r gweithgareddau hynny. Mae hwn yn gais penodol, gydag amserlen gymharol fyr, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Gwnaethom holi (mewn perthynas â drafft blaenorol o'r Rheoliadau) ei bod yn ymddangos yn aneglur sut y bydd y gofyniad hwn yn cael ei amlygu/ei hysbysebu, er mwyn galluogi'r rhai sydd dan rwymedigaeth i hysbysu CNC i wneud hynny mewn da bryd. Ymatebodd y Gweinidog, ar 23 Mawrth, drwy ddatgan bod Llywodraeth Cymru:

"eisoes wedi ymgynghori â rhanddeiliaid (gan gynnwys CNC) ynghylch sefydlu cynllun EPR newydd. Yn ogystal, ategir cyflwyno'r Rheoliadau hyn gan broses ymgysylltu â rhanddeiliaid gynhwysfawr ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth yn targedu'r rhai sydd â rhwymedigaeth o dan y rheoliadau sydd eisoes ar waith ac yn mynd rhagddynt. Nod y rhain yw rhannu'r newidiadau hyn a helpu busnesau i ddeall y rhwymedigaethau a osodir arnynt. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn."

9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Yn gyffredinol, gall fod yn anodd llywio drwy'r Rheoliadau. Yn ein barn ni, nid yw rheoliad 15 yn hygyrch iawn a gall hyn achosi trafferth i gynhyrhydd ddeall beth yw ei rwymedigaethau. Yn y bôn, mae pedwar cam yn rheoliad 15. Yn gyntaf, rhaid i gynhyrhydd nodi pa ddarpariaeth o reoliad 15 sy'n berthnasol i'w fusnes. Mae hyn yn ei gyfeirio at ddarpariaethau penodol rheoliadau 16 a 17. Yn ail, mae'r ddarpariaeth berthnasol yn rheoliad 16/17 yn ei gyfeirio at baragraffau penodol i'r Atodlen. Yn drydydd, mae'r paragraffau hynny o'r Atodlen yn ei gyfeirio at baragraffau eraill ar wahân i'r Atodlen. Yn olaf, dim ond wedyn y gall y cynhyrhydd weld y wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei chasglu/hadrodd, er y gall fod yn rhaid iddo fynd yn ôl ac ymlaen rhwng paragraffau ar wahân i ganfod y rhestr gyflawn.



Byddai'n ymddangos yn fwy priodol pe bai'r Atodlen yn symlach fel ei bod yn cynnwys rhestr ar wahân ar gyfer pob math o gynhyrchydd, sy'n nodi'n glir yr holl wybodaeth y mae ar y cynhyrchydd hwnnw ei hangen.

Nid ydym yn credu mai dyma'r modd mwyaf hygyrch o ddrafftio'r rheoliadau. Ar 23 Mawrth, wrth ymateb i ymholiad blaenorol y Pwyllgor ar y pwynt hwn, datganodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru:

"o'r farn bod y broses gyfeirio yn y Rheoliadau yn sicrhau bod y Rheoliadau yn hygyrch ac yn rhoi eglurder i gynhyrchwyr ynghylch eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau. Yn ogystal, ategir cyflwyno'r Rheoliadau hyn gan broses ymgysylltu â rhanddeiliaid gynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth yn targedu'r rhai sydd â rhwymedigaeth o dan y Rheoliadau sydd eisoes ar waith ac yn mynd rhagddynt. Nod y rhain yw rhannu'r newidiadau hyn a helpu busnesau i ddeall y rhwymedigaethau a osodir arnynt.

10. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 19(2)(a) yn darparu bod paragraff 19(1) yn gymwys os yw cynhyrchydd yn darparu gwybodaeth y mae gweithredwr cynllun yn gwneud cais amdani o fewn "cyfnod rhesymol i gael cais o'r fath". Fodd bynnag, nid oes manylion ar wyneb y Rheoliadau ynghylch beth y gallai cyfnod rhesymol o'r fath fod. Pan gododd y Pwyllgor y mater hwn yn flaenorol, datganodd y Gweinidog (ar 23 Mawrth) nad:

"ystyriwyd bod angen diffinio "cyfnod rhesymol" o ystyried y bydd yr hyn a allai gael ei ystyried yn rhesymol yn debygol o fod yn wahanol gan ddibynnu ar y lefel o wybodaeth y gofynnir amdani ym mhob achos unigol. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn."

11. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 22 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyhoeddi rhestrau o eitemau a gesglir i'w hailgylchu. Fodd bynnag, nid oes gofyniad penodol ar wyneb y Rheoliadau i ddiweddarau'r rhestrau hyn. Felly, nid yw'n glir os mai'r bwriad yw i'r rhestrau a gyhoeddir yn unol â rheoliad 22 gael eu diweddarau. Ar 23 Mawrth, datganodd y Gweinidog y canlynol wrth ymateb i ymholiad blaenorol ar y pwynt hwn:

bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu disodli gan y brif gyfres o Rheoliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ("EPR") a fydd yn cyflwyno'r agweddau eraill ar y diwygiadau EPR ym maes pecynwaith ac felly mae terfyn amser i'r gofyniad hwn. O dan y Rheoliadau EPR trosglwyddir y cyfrifoldeb am gyhoeddi rhestrau o eitemau wedi eu hailgylchu o CNC i weinyddwr cynllun a fydd yn cael ei sefydlu i weithredu'r drefn. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r



afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn."

12. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 25(1) yn galluogi CNC i gyflenwi ffurflen i berson cymeradwy wneud cais am gymeradwyaeth i ddirprwyo ei swyddogaethau i berson arall o dan reoliad 24(3).

Mae rheoliad 25(2) yn darparu ar gyfer cyfnod o 28 o ddiwrnodau pan gaiff CNC caniatáu neu wrthod y cais am gymeradwyaeth.

Roeddem yn meddwl tybed a ystyriwyd bod darpariaeth sy'n caniatáu cydsyniad tybiedig, mewn amgylchiadau pan nad yw CNC yn caniatáu neu'n gwrthod y cais o fewn yr amserlen benodedig, ac a fyddai'n cynorthwyo ymgeiswyr. Ar 23 Mawrth, datganodd y Gweinidog, wrth ymateb i'n hymholiad, na:

"fyddai Llywodraeth Cymru am weld sefyllfa pan fo cydsyniad tybiedig yn ddiodyn ac mae'n bwysig bod CNC fel y rheoleiddiwr yn penderfynu ar y cais. Felly nid ystyrir bod angen diwygiad i fynd i'r afael â'r pwynt craffu ar rinweddau hwn."

13. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Gosodwyd y Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar 13 Mehefin 2023. Gosodwyd drafft cyntaf o'r Rheoliadau gerbron y Senedd ar 24 Ionawr 2023, cyn cael ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach. Gosodwyd ail drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd ar 14 Chwefror 2023, a chafodd ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach hefyd. Nid yw'n glir pam y bu oedi cyn gosod y Rheoliadau hyn, o ystyried bod newidiadau cyfyngedig wedi'u gwneud i ffurf y Rheoliadau mewn cymhariaeth â'r fersiwn flaenorol a osodwyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1:

Nodir y pwynt hwn. Mae'r gwall yn un bach iawn, a byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau hyn eu cywiro i ymdrin â'r gwall hwn cyn gwneud y Rheoliadau.

Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn tynnu sylw aelodau'r Senedd at hyn yn y ddadl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn a gynhelir ar 11 Gorffennaf. Mae hyn yn unol â'r camau a nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yn ei ohebiaeth â chi ar 18 Ionawr a 15 Chwefror 2023.

Pwynt Craffu Technegol 3:

O ystyried bod y term "brand" ond yn cael ei ddefnyddio mewn un ddarpariaeth, yn y diffiniadau o "perchennog brand" a "pecynwaith wedi ei frandio" o dan reoliad 8(13), mae'r



term “brand” wedi ei ddiffinio yn yr un ddarpariaeth. Mae hyn yn unol â pharagraff 4.14(1) o ganllawiau drafftio Llywodraeth Cymru “Drafftio Deddfau i Gymru”.

Gan hynny, ystyrir nad oes angen diwygiad i ymdrin â'r pwynt craffu technegol hwn.

Pwyntiau Craffu Technegol 4 a 5:

Nodir y pwyntiau hyn. Mae'r gwallau hyn yn rhai bach iawn, a byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau hyn eu cywiro i ymdrin â'r gwallau hyn cyn gwneud y Rheoliadau.

Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn tynnu sylw aelodau'r Senedd at hyn yn y ddatl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn a gynhelir ar 11 Gorffennaf. Mae hyn yn unol â'r camau a nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yn ei ohebiaeth â chi ar 18 Ionawr a 15 Chwefror 2023.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 13:

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod a'u tynnu yn ôl ym mis Mawrth 2023 oherwydd sylwadau a gafwyd gan y Pwyllgor ar ddrafftio technegol y testun. Yn y cyfnod rhwng tynnu'r Rheoliadau yn ôl a'u hailosod, aethom ati i drefnu prosesau sicrhau ansawdd digonol o ran drafftio cyfreithiol a chyfieithu er mwyn lleihau gwallau sylweddol. Gwnaethom hefyd gysylltu â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU i sicrhau bod agweddau ar y polisiau yn eglur er mwyn cynnal cysondeb rheoliadol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

